

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 25^{AIN} TACHWEDD 2020
(CYFARFOD DRWY GYSWLLT GWEFAN 'ZOOM' OHERWYDD COVID-19)

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Ann Vaughan (AV), Mark Davies (MD), Einir Williams (EW), Garffild Ll Lewis (GLL), R. Emlyn Williams (REW), Elen H Edwards (EHE) a Diane Roberts (DR)

1.3 Ymddiheuriadau: Gwynfor Davies (GD)

1.4 Absennol: Gwydion Jones (GJ) a Gwyn Williams (GW)

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 COFNODION I'W GWIRO 21^{AIN} HYDREF 2020

Cynnigwyd yn gywir gan REW ac eilwyd gan MD.

4 MATERION YN CODI

GLL wedi cysylltu efo'r Cyngor Sir ynglyn â gwaith oedd wedi eu grybwyll yn y cyfarfod diwethaf, llawer o'r gwaith wedi ei gwblhau bellach.

EW wedi ail drefnu'r sgipiau i Pandy Tudur a Gwytherin.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

5.1 0/47856 – er gwybodaeth, dim sylw.

6 MATERION Y CYNGOR

6.1 Swyddfa Bost Llangernyw – GLL wedi cysylltu efo'r Post Brenhinol i gael diweddariad, anhebygol iawn y bydd swyddfa bost yn ôl yn y siop yn Llangernyw cyn y Nadolig. Ar hyn o bryd, gwasanaeth symudol bob dydd Gwener yn y pentref. Perchnogion presennol y siop yn adrodd ei bod yn broses hir i fynd trwy'r broses gais. Trafododd CR fod gweithwyr dros dro wedi bod yn y swyddfa bost dros dro ond oherwydd Covid-19, mae'n gwneud y broses dipyn anoddach. Adroddodd AV ei bod wedi siarad efo Vicky sydd yn gweithio yn y siop â'r swyddfa bost yn Llanfair Talhaearn efo'r posibilrwydd iddi wneud ambell ddiwrnod yn y swyddfa bost yn Llangernyw.

GLL wedi bod mewn cyswllt efo'r Cyngor Sir ynglyn â chael llinellau melyn dwbl ar gornel y ffordd tu allan i'r siop yn Llangernyw. Bydd y mater hwn yn cael ei roi o flaen y cabinet yn y Cyngor Sir.

7 AWDIT BLYNYDDOL

Adroddodd EW ei bod wedi bod mewn cysylltiad efo BDO yn ddiweddar, roedd 5 pwynt i'w unioni. EW ac EHE wedi bod trwyddynt efo'i gilydd. Roedd angen rhestr o'r cyfarfodydd, roedd hwn i'w weld yn glir ar wefan y Cyngor ymysg pethau eraill, diolchwyd i EW, EHE, DR a Iona Williams y cyfrifydd am eu gwaith.

8 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Diweddariad - gwaith ar Y Bont Faen wedi cael ei ohirio, lefel y wal ger y fynwent wedi cael ei chodi.

MD – arwyddion 20mya wedi cael eu gosod mewn llefydd od yn y pentref ger bolion telegraff ddim yn amlwg iawn yn y pentref. GLL wedi codi'r mater efo'r Cyngor Sir, mae'r

arwyddion wedi eu gosod o fewn mesuriadau pendant o'r ysgol. GLL am fynd yn ôl at y Cyngor Sir i weld os oes modd eu symud.

9 BILIAU

9.1 Kevin Roberts gwaith atgyweirio diweddar £480. Cais can y Cyngor Sir am £400 ar gyfer atgyweirio a chlirio llwybrau yn cael ei wneud. TAW y cyngor angen ei sortio allan hefyd. Anfoneb i'w basio ymlaen i GD er mwyn sortio'r TAW efo'r cyfrifydd.

9.2 Cyflog Enlli: £49.61. EHE wedi bod yn trafod efo'r cyfrifydd ynglyn a chodi cyflog, am gadarnhau os na pwynt cyflog neu inflation yn unig oedd y codiad cyflog, cadarnhawyd pwynt cyflog ac inflation ôl daliad yn cael ei wneud o fis Ebrill 2020.

Cytunwyd i dalu'r biliau uchod.

Gofynnodd REW os oedd dal angen laptop y cyngor, mae'r laptop yn ei feddiant ef ar hyn o bryd. Pwrpas darganfod y laptop oedd i weld os oedd rhestr o asedau'r Cyngor arno. CR i drefnu casglu'r laptop gan REW.

10 MATERION LLEOL

REW – cais ym mis Hydref i gladdu llwch mewn bedd llawn yn hytrach na bedd llwch ym mynwent Llangernyw. REW wedi caniatáu'r cais. Nododd CR fod darn o dir wedi ei glustnodi ar gyfer claddu llwch. Cafodd y Cynghorwyr drafodaeth ynglyn â'r mater, REW wedi caniatáu y cais hwn oherwydd fod angen penderfyniad yn syth oherwydd fod angen claddu yn syth. EHE yn teimlo nad oedd modd gwrthod ceisiadau fel hyn wrth fynd ymlaen. Cytunodd y Cynghorwyr. Cyfarfod Pwyllgor Mynwentydd i'w drefnu ar gyfer dechrau'r flwyddyn.

Dei Evans wedi awgrymu fod y Cyngor yn trefnu chwistrellu'r llwybrau yn y mynwentydd yn y gwanwyn rhag chwyn.

AV – ffordd yn cau 1^{af} Rhagfyr efo goleuadau, cadarnhaodd CR rhwng Tan Ffos a'r Felin, Llangernyw.

Gwteri ger Bethabara dal heb eu glanhau ers mis Chwefror, GLL wedi bod ar ôl y Cyngor Wedi derbyn scam ar ebost Royal Mail scam ar ebost, hefyd wedi derbyn un Parcel Force.

EHE – precept angen ei baratoi ym mis Ionawr, angen cael trafodaeth ynglyn â hyn ym mis Rhagfyr. Angen gwneud yn siwr fod popeth yn barod cyn y Nadolig fel bod DR a EHE yn cael digon o amser i baratoi. Penderfynwyd fod hwn yn eitem ar agenda mis Ionawr.

Tyllau yn y ffyrdd, defnyddio Report It i hysbysu'r Cyngor Sir.

CR – afon ger Pen y Graig, Gwytherin wedi dirywio ochrau yr afon tuag at y llwybr cyhoeddus gerllaw. Wedi defnyddio Report It.

DR – wedi cael negeseuon yn cwyno am faw cŵn a sbwriel yn Glan Collen. Wedi bod mewn cyswllt efo'r Warden Cŵn am y broblem, warden wedi gaddo dod i'r pentref.

Cwyn arall am gerbyd yn cael ei yrru tu allan i 1 Glan Collen, dim mynediad efo car. Llanast ar y glaswellt tu allan ar y gwair, DR am gysylltu efo'r Cyngor Sir ynglyn â hyn.

11 CYFARFOD NESAF

16^{eg} Rhagfyr 2020 (Cyfarfod Rhithiol ar Zoom)

Cyfarfod yn dod i ben 8:25yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan